

Cwrs Plant yn Y Bala

Mai 13–15, 2016

Bydd cyfle i blant yr Ofalaeth fynd i aros yng Ngholeg y Bala ym mis Mai, o nos Wener, Mai 13 hyd amser cinio dydd Sul, Mai 15.

Mae'r cwrs hwn wedi ei drefnu ar y cyd â Gofalaeth Llanrug a Bethel ers sawl blwyddyn erbyn hyn, a dyna'r trefniant ar gyfer eleni eto.

Mae croeso i blant Carmel a Bethlehem ymuno â ni os ydynt yn dymuno hynny.

Mae'r cwrs ar gyfer plant 8 i 12 oed, sef plant Blwyddyn 3 i 6 (ond mae'n rhaid eu bod wedi cael eu pen blwydd yn 8 oed erbyn dyddiad y cwrs, yn ôl rheolau'r Coleg).

Bwriedir trefnu bws eleni eto i fynd â'r plant i'r Bala ac yn ôl.

Mae hwn wedi bod yn gwrs poblogaidd dros y blynnyddoedd, ac mae'r plant wedi mwynhau eu hunain arno. Mae'n gyfle iddynt ddysgu am Iesu Grist trwy bob math o wahanol weithgareddau. Bydd cyfle hefyd i fynd i nofio yn y pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden y dref ac i wyllo ffilm yn y Coleg ar y nos Sadwrn.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 27 (Sul y Pasg)

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 10

Y Parchg Gwyndaf Jones

Ebrill 17

5.00 p.m. - Y Gweinidog

(Oedfa Gymun)

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ebrill 3: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ebrill 3: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes. Bydd Cyfarfod Gweddi am 5.00 o'r gloch. Ni fydd Ysgol Sul.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 3: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ebrill 3: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

CARMEL

Dydd Sul, Ebrill 3: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn oedfa Gymundeb.

“Crist a gyfodwyd”

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 27 (Sul Pasg)

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ebrill 3

10.00 a.m. - Mr John H Hughes

5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi

Ebrill 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ebrill 17

10.00 p.m. - Mr Huw Tegid Roberts

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 676: Sul y Pasg, 27 Mawrth, 2016

Sul y Pasg

Mae carchar mwyaf gwledydd Prydain yn cael ei godi yn Wrecsam i gadw 2016 o droseddwy. Ar hyn o bryd, mae bron i 86,000 o bobl mewn carchar yng ngwledydd Prydain, ac mae'n amlwg fod disgwyl i fwy eto fod dan glo wedi agor y carchar newydd. Am ba reswm bynnag, gwahanol iawn yw'r stori yn Yr Iseldiroedd, lle mae llai a llai o bobl yn cael eu carcharu bob blwyddyn. Ers 2009, maen nhw wedi cau 27 o garchardai'r wlad honno, a bwriedir cau 5 arall yn fuan. Mae yng ngharchardai'r Iseldiroedd filoedd o gelloedd gwag. Pa ddiben cael carchar os nad oes carcharorion i'w lenwi? Tebyg yw'r stori yn Sweden hefyd, lle caewyd pedwar carchar yn 2013.

Mae un o hen garchardai'r Iseldiroedd, Het Arresthuis, yn Roermond, wedi ei droi'n westy moethus pedair seren. Wn i ddim beth a ddiwyddodd i'r gweddill. Wn i ddim chwaith beth a ddiwyddodd i'r bedd y gosodwyd Iesu Grist ynddo wedi'r croeshoeliad. Fore'r Pasg, roedd y garreg fawr a osodwyd dros geg y bedd wedi ei symud er mwyn i'r gwagedd a'r disgyblion allu gweld nad oedd Iesu'n dal yno. Roedd Iesu wedi dod yn ôl yn fyw, ac yn fuan wedyn fe'i gwelwyd gan lawer o'i ffrindiau. A thros y deugain niwrnod dilynol, daeth fwy nag unwaith at ei ddisgyblion, cyn eu gadael y tro olaf ac esgyn i'r nefoedd.

Ond beth am y bedd? Chawn ni wybod dim mwy amdano yn y Beibl wedi i'r

gwagedd a'r disgyblion fynd ymaith. Tybed a gafodd y garreg ei hail osod dros geg y bedd? Neu tybed a gafodd ei gadael lle'r oedd hi? Wedi'r cyfan, heb gorff, doedd dim angen cau'r bedd. Heb gorff, doedd dim defnydd iddo. Mae'n bosibl, wrth gwrs, fod y bedd hwn wedi ei ddefnyddio eto. Bedd benthyc oedd o; bedd yr oedd Joseff o Arimathea wedi ei fwriadu ar ei gyfer ef ei hun, cyn gosod corff Iesu ynddo. Mae'n bosibl fod Joseff wedi ei gladdu ynddo yn nes ymlaen. Ond o ran yr Iesu, bedd segur fyddai'r bedd gwag hwn byth mwy.

Roedd Joseff wedi naddu'r bedd o'r graig. O ran yr Iesu, byddai Joseff wedi medru ail lenwi'r bedd â cherig a phridd gan na fyddai ar Iesu angen yr un bedd eto. Bu'r bedd yn garchar i'w gorff am gyfnod byr. Ond daeth y carchar yn rhydd. Daeth y corff yn ôl yn fyw. Daeth Iesu allan o'r bedd. Ac aeth y carchar segur hwnnw'n fwy di-alw-amdano na'r un o garchardai gwag yr Iseldiroedd a Sweden.

Ŵyr neb erbyn hyn beth fu hanes y bedd hwnnw wedyn. Mae mwy nag un lleoliad posibl wedi ei awgrymu dros y blynnyddoedd, yn cynnwys 'Y Bedd yn yr Ardd' y mae ymwelwyr yn ymweld ag ef yn Jerwsalem o hyd. Lle bynnag oedd y bedd, a beth bynnag a wnaed ohono wedi i'r Iesu fod ynddo, diolch a wnawn ni ei fod wedi cyflawni ei ddiben erbyn bore'r Pasg ac nad oedd ganddo ef nac angau afael pellach ar Iesu, ein Gwaredwr byw ni.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Pam, ARGLWYDD y sefi draw, ac ymguddio yn amser cyfyngder? ... Cyfod, ARGLWYDD; O Dduw, cod dy law; nac anghofia'r anghenus' (Salm 10:1 a 12).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul y Pasg. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch, a cheir Helfa Wyau Pasg a phaned ar ôl yr oedfa.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch heno gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon. Croeso cynnes iddi, a diolch am ei gwasanaeth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Capel Carmel

Diolch i bawb a ddaeth i'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Ngharmel, Llanllechid nos Fawrth diwethaf. Croesawyd y Parchg Casi Jones, Swyddog Adnoddau yr Annibynwyr yn y Gogledd i'n harwain mewn myfyrdod oedd wedi ei seilio ar ddameg y Mab Afradlon trwy'r portread a geir yn un o ddarluniau'r arlunydd Rembrandt.

Pasg yn y Parc

Cynhaliwyd Pasg yn y Parc ym Mharc Glynllifon echdoe, ddydd Gwener y Grogolith. Trefnwyd y diwrnod ar y cyd gan Trobwynt a Chynllun Efe. Diolch i Andrew am ei holl waith trefnu unwaith eto.

Oedfaon Deiniolen Patrwm newydd

Mae'r trefniadau newydd ar gyfer yr oedfaon yn Neiniolen wedi cychwyn yn dda, ac mae'n braf gweld cynulleidfafref yn yr oedfa.

Cofiwch y cynhelir oedfa bob Sul, un ai am 5.00 o'r gloch neu yn y pawns.

Bydd y Gweinidog fel arfer yn pregethu am 3.30 o'r gloch ar Sul cyntaf y mis (fel y Sul nesaf, Ebrill 3), ac am 5.00 o'r gloch ar drydydd Sul y mis.

Fe fydd y manylion yn glir yn *Gronyn*.

Y bedd gwag

Yn gynnar iawn ar y bore Sul, a hithau'n dal yn dywyll, dyma Mair Magdalen yn mynd at y bedd a darganfod fod y garreg fawr oedd ar geg y bedd wedi ei symud.² Felly dyma hi'n rhedeg at Simon Pedr a'r disgybl arall (yr un oedd Iesu'n ei garu'n fawr), a dweud wrthyn nhw, "Maen nhw wedi cymryd yr Arglwydd allan o'r bedd, a dŷn ni ddim yn gwybod ble maen nhw wedi ei roi e!"



³ Felly dyma Pedr a'r disgybl arall yn mynd allan i fynd at y bedd. ⁴ Rhedodd y ddau gyd-a'i gilydd, ond dyma'r disgybl arall yn rhedeg yn gynt na Pedr a chyrraedd yno o'i flaen. ⁵ Plygodd i edrych i mewn i'r bedd, a gweld y stribedi o liain yn gorwedd yno, ond aeth e ddim i mewn. ⁶ Yna dyma Simon Pedr yn cyrraedd ar ei ôl ac yn mynd yn syth i mewn i'r bedd. Gwelodd yntau'r stribedi o liain yn gorwedd yno. ⁷ Gwelodd hefyd y cadach oedd wedi bod am wyneb Iesu, ond roedd hwnnw wedi ei blygu a'i osod o'r neilltu ar wahân i'r stribedi lliain. ⁸ Yna, yn y diwedd, dyma'r disgybl arall (oedd wedi cyrraedd y bedd gyntaf) yn mynd i mewn hefyd. Pan welodd e'r cwbl, credodd. ⁹ (Doedden nhw ddim eto wedi deall fod yr ysgrifau sanctaidd yn dweud fod rhaid i Iesu ddod yn ôl yn fyw.)

Ioan 20:1-9

Ebeneser

Gofynnir i aelodau Ebeneser aros ar ôl ar derfyn yr oedfa bawn Sul nesaf, Ebrill 3, i drafod un mater ariannol syml.

Bydd yr oedfa am 3.30 o'r gloch.

LLANW 16

Cynhelir cynhadledd neu ŵyl LLANW yng Nghricieth yr wythnos hon, o ddydd Llun, Mawrth 28 hyd nos Iau, Mawrth 31. Daw LLANW â phobl o bob rhan o'r wlad at ei gilydd i fwynhau cymdeithas ac addoliad Cristnogol, ac mae'n tyfu a datblygu bob blwyddyn. Mae modd mynd yno i ambell un o'r cyfarfodydd neu i'r cyfan.

Cynhelir oedfa bob nos a bob bore. Mae gwahanol bobl yn arwain yr addoliad ac yn pregethu bob dydd.

Bydd y cyfarfodydd yn y Neuadd Goffa (ar y Sgwâr yng Nghricieth).

Am 7 o'r gloch o nos Lun hyd nos Iau, pregethir gan y canlynol:

Nos Lun: Steffan Morris, Llanuwchllyn

Nos Fawrth: Huw Powell Davies, Yr Wyddgrug

Nos Fercher: Derek Rees, Llanelli

Nos Iau: Gwilym Jeffs, Caerdydd

Am 10.00 o'r gloch fore Mawrth, Mercher ac Iau, ceir anerchiadau gan y Parchg Mark Thomas, sy'n weinidog yn Wrecsam.

Gallaf eich sicrhau ei bod yn werth mynd i LLANW i brofi cynhesrwydd y gymdeithas a'r addoliad.